

Llais
Ystafell 5, Llawr 1af
Tŷ Myrddin
Heol Yr Hen Orsaf
Caerfyrddin SA31 1BT



Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care

Llais
Suite 5 1st Floor
Tŷ Myrddin
Old Station Road
Caerfyrddin SA31 1BT

01/06/23

Annwyl Steve,

Rydym yn ysgrifennu i nodi ein hargymhellion yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn ymwneud â dewis safleoedd ysbytai ac i roi sylwebaeth gytbwys ar y materion a'r themâu a nodwyd. Bydd hefyd yn atgoffa BIPHDd o'r argymhellion a wnaed gan CICHDD ar Drawsnewid Gwasanaethau Clinigol a fabwysiadwyd gan BIPHDd ar 26 Medi 2018.

Byddwn yn parhau i gynrychioli barn y cyhoedd drwy gamau nesaf y rhaglen hon ac yn parhau i groesawu sylwadau a safbwyntiau gan y cyhoedd wrth i ni wneud hynny.

Mynychodd Llais bob un o ddigwyddiadau galw heibio a digwyddiadau ar-lein yr ymgynghoriad cyhoeddus. Rydym hefyd wedi monitro sylwadau cyfryngau cymdeithasol lle bo hynny'n bosibl. Roeddem yn teimlo bod dull gweithredu'r Bwrdd Iechyd yn dda iawn ar y cyfan gyda digwyddiadau croesawgar ac uwch staff cymwynasgar yn bresennol i drafod yr opsiynau a'r model clinigol ehangach. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth amser teithio yn ddryslyd i'r cyhoedd ac yn golygu bod rhai sgysiau yn dechrau ar y droed anghywir. Fel arall, roeddem yn teimlo bod y cyfnod ymgynghori yn cael ei redeg yn dda ac yn briodol o ystyried y ffocws ar ddewis y safle.

Cadeirydd | Chair: **Yr Athro Medwin Hughes, DL**
Prif Weithredwr Dros Dro | **Interim Chief Executive: Alyson Thomas**
Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru): **Donna Coleman**

E-bost | E-mail: westwalesenquiries@llaiscymru.org

Ffôn | Tel: 01646 697610

Croesewir Gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwch yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

We welcome correspondence in Welsh and English. If you write to us in Welsh, we will answer in Welsh. This will not lead to a delay in responding to your correspondence.

Nid oes gan Llais opsiwn a ffefrir gan fod yn rhaid i ni gynrychioli barn pawb ac roedd gwahaniaethau naturiol o ran rhagolygon.

Themâu sy'n dod drwy'r digwyddiadau

Trafnidiaeth

Mewn nifer o drafodaethau y gwnaethom gymryd rhan ynddynt, roedd y cyhoedd yn pryderu am yr effaith y byddai ysbyty newydd ym mharthau Sanclêr neu Hendy-gwyn ar Daf yn ei chael ar amseroedd ymateb ambiwlansys.

Roedd mater a godwyd yn rheolaidd yn ystod yr ymgynghoriad yn ymwneud â thrafnidiaeth a'r gallu i gael mynediad at wasanaethau'r GIG. I rai roedd yn fater hollbwysig, gydag un yn dweud; "Nid wyf yn poeni ble mae'r ysbytai, os na allaf gyrraedd yno does dim ots"

I Llais, mae'n sicr yn fater sylfaenol sy'n hanfodol i lwyddiant y cynigion sy'n cael eu gwneud gan y Bwrdd Iechyd. Roedd yn amlwg yn ystod yr ymgynghoriad y byddai BIPHDd angen mwy o gapasiti trafndiaeth yn y dyfodol. Teimlai llawer o bobl nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn diwallu eu hanghenion nawr.

Roedd pobl hefyd yn poeni nad oedd seilwaith trafndiaeth yn ddigonol ar hyn o bryd i gefnogi heriau logistaidd llawer o bobl i gael mynediad at ysbyty newydd.

Mae Llais yn teimlo, er bod llawer o drafod wedi bod ynghylch y buddsoddiad ariannol sydd ei angen i adeiladu ysbyty newydd, bod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd edrych ar gludiant cleifion yn strategol ac yn arloesol gydag ymrwymiad i fuddsoddi'n briodol. Wrth edrych i'r dyfodol, bydd y model hwn yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion trafndiaeth wrth i newidiadau i wasanaethau ddatblygu a bod darparwyr gwasanaethau trafndiaeth yn cael eu rhoi ar sylfaen gadarn i ddiwallu'r anghenion hynny fel y nodwyd yn ymateb CICHDD 2018 (argymhelliad 5) i Drawsnewid Gwasanaethau Clinigol.

Argymhelliad 1

Rydym yn disgwyl i'r Bwrdd Iechyd wneud ymrwymiad clir i roi trafndiaeth wrth wraidd ei gynlluniau strategol gyda pharodrwydd i arloesi, dealltwriaeth glir o'r

Cadeirydd I Chair: Yr Athro Medwin Hughes, DL
Prif Weithredwr Dros Dro I Interim Chief Executive: Alyson Thomas
Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru): Donna Coleman
E-bost I E-mail: westwalesenquiries@llaiscymru.org
Ffôn I Tel: 01646 697610

angen, a chyllid priodol i ddiwallu'r anghenion hynny. Mae angen i ddarparwyr trafnidiaeth gan gynnwys darparwyr trydydd sector ymwneud yn agos â chynllunio.

Mynediad, gofal brys ac argyfyngau

Codwyd pryderon am gyfyngiadau'r seilwaith ffyrdd lleol a'r effaith gysylltiedig ar ambiwlansys gan aelodau'r cyhoedd o'r tair sir, mater yr oedd llawer yn teimlo ei fod yn bwysig, yn enwedig pan fydd yr A40 yn cael llawer o ddamweiniau ffordd ac weithiau mae tagfeydd mawr o fewn misoedd yr haf.

Argymhelliad 2

Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd gymryd rôl weithredol gyda rhanddeiliaid fel y Cynghorau Sir yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, yr Asiantaeth Priffyrdd ynghylch seilwaith ffyrdd.

Ynghyd â phryderon ynghylch amseroedd teithio hirach, amlygodd pobl bryderon y gallent ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau a allai fod yn bellach i fwrdd oherwydd incwm isel, a chost teithio.

Roedd parcio yn faes pryder arall o ystyried yr heriau anodd y mae pobl yn eu profi ar hyn o bryd ar rai safleoedd Byrddau Iechyd ac roedd disgwyliad clir y dylai capasiti parcio fod yn hael yn y broses gynllunio.

Roedd yn amlwg o lawer o ddigwyddiadau bod y cyhoedd yn poeni am yr adrannau brys presennol yn Llwynhelyg a Glangwili yn dod yn wasanaethau mân anafiadau pan fydd yr ysbyty newydd yn cael ei adeiladu. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ymrwymo i ymgysylltu ymhellach â'r cyhoedd ynghylch eu hanghenion gofal brys fel eu bod yn teimlo eu bod yn barod i wneud y dewisiadau cywir. Efallai y bydd angen i hyn fod yn broses annibynnol neu fod yn rhan allweddol o gynlluniau ymgysylltu parhaus yn y dyfodol. O'r Canllawiau ar gyfer Ymgysylltu ac Ymgynghori ar Newidiadau i Wasanaethau Iechyd (2023) a ddiweddarwyd yn ddiweddar;

“Rhaid i'r GIG sefydlu a chynnal ymgysylltiad parhaus â dinasyddion, staff, cynrychiolwyr staff a chyrrff proffesiynol, rhanddeiliaid, trydydd sector a sefydliadau partner nid yn unig pan fydd newidiadau yn digwydd, ond hefyd yn rheolaidd. Dylai

Cadeirydd I Chair: Yr Athro Medwin Hughes, DL
Prif Weithredwr Dros Dro I Interim Chief Executive: Alyson Thomas
Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru): Donna Coleman
E-bost I E-mail: westwalesenquiries@llaiscymru.org
Ffôn I Tel: 01646 697610

roi cyfle i bobl ddeall eu dyheadau a'u cyflawniadau, a'r heriau y mae'n eu hwynebu, ac i ddylanwadu ar benderfyniadau am newidiadau mewn cyfeiriad a datblygiadau penodol mewn gwasanaethau”

Argymhelliad 3

Dylai'r Bwrdd Iechyd ymgysylltu â'r cyhoedd ar newidiadau arfaethedig i wasanaethau gofal brys yng Nglangwili a Llwynhelyg.

Staffio

Roedd y cyhoedd yn amlwg yn ymwybodol bod materion yn ymwneud â'r gweithlu wrth wraidd yr heriau presennol a hefyd yr atebion i'r problemau hynny yn y dyfodol. Roeddent hefyd yn pryderu bod y cynigion yn rhagdybio y byddai clinigwyr yn cael eu denu i weithio yn y system newydd.

“Sut ydych chi'n mynd i staffio'r ysbyty newydd? Ni all y Bwrdd Iechyd gael staff nawr”

Teimlwn fod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i ddangos sut y bydd yn datblygu ac yn adeiladu'r gweithlu angenrheidiol i wneud i'w gynigion weithio. Byddai hyn yn sylfaen bwysig wrth ddatblygu ymddiriedaeth y cyhoedd. Unwaith eto, byddai ymgysylltu parhaus yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer rhannu cynlluniau gweithlu.

Argymhelliad 4

Dylai ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid a'r cyhoedd dynnu sylw at y cynnydd y mae cynlluniau'r gweithlu yn ei wneud

Yn olaf, byddwch yn cofio bod CIC Hywel Dda wedi gwneud 18 o argymhellion yn 2018 ar ôl yr ymgynghoriad Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol ac rydym am dynnu

Cadeirydd I Chair: Yr Athro Medwin Hughes, DL
Prif Weithredwr Dros Dro I Interim Chief Executive: Alyson Thomas
Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru): Donna Coleman
E-bost I E-mail: westwalesenquiries@llaiscymru.org
Ffôn I Tel: 01646 697610

sylw at y canlynol sydd, yn ein barn ni, yn parhau i fod yn uniongyrchol berthnasol i'r broses drawsnewid gyffredinol:

Argymhelliad:

Ar gyfer pob gwasanaeth rydym yn disgwyl i'r Bwrdd lechyd sicrhau na all unrhyw newid i wasanaethau ddigwydd a fyddai'n arwain at ofal a oedd yn llai diogel neu o ansawdd llai na'r gwasanaethau presennol.

Argymhelliad:

Rydym yn disgwyl i'r Bwrdd lechyd sicrhau'r cyhoedd na fydd unrhyw benderfyniadau terfynol ar ddileu gwasanaethau penodol yn cael eu gwneud hyd nes y bydd achos llawnach yn cael ei ddatblygu.

Argymhelliad:

Rydym yn disgwyl i'r Bwrdd lechyd ymgysylltu a lle bo angen ymgynghori ymhellach â'r cyhoedd ar newidiadau penodol wrth i ddarlun cliriach o sut y byddai gwasanaethau newydd yn rhedeg dod i'r amlwg.

Casgliad

Mae'n amlwg o fynychu'r digwyddiadau ymgysylltu bod pobl yn angerddol am eu GIG. Ar ôl mynychu'r holl ddigwyddiadau ymgysylltu, prif themâu a phryderon y cyhoedd yw trafndiaeth, mynediad, staffio, pa wasanaethau oedd yn mynd i fod yn yr ysbytai newydd a beth oedd yn mynd i ddigwydd i ysbytai Glangwili a Llwynhelyg. Er mwyn dod â'r cyhoedd a helpu i lunio gwasanaethau'r GIG, mae angen ymgysylltu'n barhaus â chyhoedd y tair sir.

Yr eiddoch yn gywir,



Donna Coleman
Cyfarwyddwr Rhanbarthol Llais Gorllewin Cymru

Cadeirydd I Chair: Yr Athro Medwin Hughes, DL
Prif Weithredwr Dros Dro I Interim Chief Executive: Alyson Thomas
Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru): Donna Coleman
E-bost I E-mail: westwalesenquiries@llaiscymru.org
Ffôn I Tel: 01646 697610